## COFNODION CYNGOR BRO LLANGELER 30 – 06 – 2025

Cofnodion Cyfarfod Misol Nos Lun Mehefin 30ain 2025 yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

1. **06/25 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. Ken Howell. Cynghorwyr: Delyth Evans, Richard Evans , Angharad Edwards, Antoni Schiavone, Marc Rees, Dilwyn Smith, Adrian Thomas, Clerc – Stella Jones.
Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Sir - Cyng. H Evans
Cydymdeimlodd y Cadeirydd â 'r Cyng Jamie Ayres ar farwolaeth ei fam yn ddiweddar

2. **06/25 YMDDIHEURIADAU:** Cyng Gethin Richards, Jamie Ayres, John Crossley, Aled Eynon, Eleri Samson.

3. **06/25 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** ni fydd y Cyng K Howell yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth yn adran Ceisiadau Cynllunio a ddaw gerbron y Cyngor.

4. **06/25 HEDDLU:** – yn absenoldeb yr heddlu gofynnwyd i'r Clerc nodi wrtho bod gor-yrru trwy Felindre, Mae parcio peryglus wrth waelod rhiw Pensarn ar y gyffordd ac hefyd tu allan i siop Premier yn Pont Tyweli. Clerc i gysylltu a Mike Jacobs o CSG.

5. **06/25 COFNODION:**
i. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar Fai 19eg 2025
Cynnig: Cyng Marc Rees — Eilio: Cyng Adrian Thomas
ii. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Misol Mai 19eg 2025
Cynnig Cyng Delyth Evans — Eilio: Cyng Richard Evans

6. **06/25 MATERION YN CODI o'r COFNODION**
10.iii.05/21 Byrddau Llwybrau Gwlân – *diweddariad yn adroddiad pwyllgorau*
10. ii.06/24 Les Cae Chwarae Parc Puw – *diweddariad – mae'r cyfreithiwr*
10.ii.06/24 Cae Chwarae Pentrecwrt Playing Field – derbyniodd y Clerc ebost gan Cyng J Ayres yn amlinellu ei gyfarfod gyda'r person oedd wedi dangos diddordeb yn cadw'r parc ar agor ond ar ôl tipyn o drafod gyda hi a'i ffrindiau daethpwyd i'r canlyniad nad oeddent yn credu gallent ffurfio pwyllgor a bd neb arall yn dangos diddordeb. Mae wedi trefnu i rhywun ddod allan i weld y broblem o'r 'Knotweed' yn y parc.
7.xix. 05/25 Lês Toiledau Parc Puw – rhywun o'r Cyngor Sir wedi bod allan i weld ynghylch trwsio'r nenfwd, mae'r Sir yn hapus i wneud hyn ond bod angen i ni arwyddo'r brydles gyntaf.

7. **06/25 GOHEBIAETH:**
i. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 26/05/2025 - 30/05/2025 – *cylchlythyrwyd*
ii. ebost – CSG – Caau hewl ar frys C1296 Velindre SA44 5JF- *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – CSG – Diweddariad i Gynghorau Tref a Chymuned – *cylchlythyrwyd*
iv. ebost – Ymgynghoriad ar Gynnig i Ffedereiddio Ysgol Brynsaron ac Ysgol Gymunedol Cae'r Felin – *cylchlythyrwyd – crewyd bod hyn yn syniad da er mwyn cadw'r ddwy ysgol ar agor*
v. ebost – CSG – Cau hewl dros dro U5472, Pentrecwrt, Llandysul - 04.08.2025 rhwng 09:30 - 15:30 am 5 niwrnod - *cylchlythyrwyd*
vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 09/06/2025 - 13/06/2025 - *cylchlythyrwyd*
vii. ebost – CSG Cau hewl dros dro U5507, Bancyffordd, Llandysul - 11.08.2025 - 1 Dydd -- *cylchlythyrwyd*
viii. ebost – CSG - gorchymyn - gosod terfyn cyflymder o 50 M.Y.A.– *cylchlythyrwyd*
ix. ebost – CSG – Cau hewl dros dro C1141 Dolwen, Llandysul SA44 5BQ temporary road closure – *cylchlythyrwyd*
x. ebost – Nacro - Promotional Videos & Posters for the Multi Agency Drop Ins and other events - June 2025 – *cylchlythyrwyd*
xi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 16/06/2025 - 20/06/2025 – *cylchlythyrwyd*
xii. ebost – ULIC - E-BWLETIN – *cylchlythyrwyd*
xiii. ebost – CSG – Shannen Rees – Toiledau Parc Puw Toilets – trafodyd dan 'Materion yn Codi o'r Cofnodion'
xiv. ebost – EFFAITH - cylchlythyr allanol pob mis Llais IMPACT – cylchlythyrwyd
xv. ebost – Jane Mansfield – Adroddiad C B Cadernid *AGM Report – cylchlythyrwyd*
xvi. ebost – Marc Gower – egluro'r sefyllfa ynghylch gwarcheidwaid i'r diffibrilwyr.

8. **06/25 CYNLLUNIO**
**CEISIADAU CYNLLUNIO - YMGYNGHORI LLAWN**
**Cais Ymgynghori llawn**
**PL/09402** – Cais am annedd menter wledig deulawr a 3 ystafell wely i gefnogi'r gweithgareddau ffermio presennol, gwella eu galluoedd rheoli a gosod y fferm mewn gwell sefyllfa i raddio ei gweithrediadau. Gyda'u harbenigedd cynyddol a'u ffocws ar arferion moesegol a chynaliadwy. Nod Treforian Suffolks yw dod yn enw blaenllaw ym marchnad bridio defaid Suffolk pedigri rhanbarthol – Swn Y Bedol, Saron, Llandysul, SA44 5EL – *dim gwrthwynebiad*
**PL/09394** – Amnewid y llinell 2 wifren bresennol i llinell 3 wifren ac ychwanegu un polyn arall a gwifren Cynnal mae NGED wedi cael caniatâd fforddiant ar ei gyfer oddi wrth y tirfeddiannwr presennol - Field at Parc Puw, Velindre, Llandysul – *dim gwrthwynebiad*
**PL/09467** – Cynnig i symud/dymchwel adeiladau presennol a chodi un annedd marchnad agored newydd a'r holl waith cysylltiedig - Gweithdu Metal Works, Velindre, Llandysul, SA44 5YA - *dim gwrthwynebiad ond bod angen sicrhau bod lle i barcio ar y safle ac oddi ar y brif ffordd.*

______________________________Cadeirydd ____________________________Dyddiad

**9. 06/25 MATERION ARIANNOL**

**1.a. Anfonebau**

i. HMRC ( Mehefin ) ....................................................£145.00
ii. YSGOL SUL ST LLAWDDOG HALL [Hirio Neuadd cyfarfod misol] ....................£12.75
iii. CLAIRE REES [Gorff]....................................................£100.00
iv. COSTAU BANC ....................................................£10.05
v. SSE [golau nadolig ]....................................................£145.51
vi. LLOYDS BANK [ffi ] ....................................................£7.75

Arian yn y Banc ar 02//06/2025 ....................................................£ 28,160.09

**b. S/O**

Cyflog y Clerk ....................................................£530.00

**4. Apêl am Nawdd Ariannol**

Dim

**10. 06/25 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

i. Toiledau Parc Puw – deliwyd o dan Materion yn Codi

**11. 06/25 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Is Bwyllgor Byrddau Llwybrau Gwlân – *dwedodd y Cyng D Evans bod y pwyllgor ar hyn o bryd mwy neu lai wedi gorffen cywiro ac adolygu'r cynnwys ar gyfer y QR Code. Y cam nesaf bydd torri lawr cynnwys addas i'w rhoi ar y byrddau mae'r mapiau yn barod ac fe gytunwyd i'r Clerc ffindio allan wrth Boomerang beth mae'r gost yn debygol o fod.*

**12. 06/25 Dyddiad y Cyfarfod nesaf a lleoliad**

Nos Lun Gorffennaf 28ain 2025 am 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Velindre

**13. 06/25 SYLWADAU'R CYNGHORWYR**

1. Cyng D Evans – i. dwedodd bod rhagor o annibendod wedi ei adael yn yr encilfa yn Rhos

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40*yh*

___________________________________ Cadeirydd Dyddiad _________________________